

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 19 Medi 2019

Canolfan Hamdden Caerfyrddin, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Paul Barrett (PB)
Martin Murray (MM)
Geoff Williams (GW)

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF) (Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC - Dros Dro)

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Oliver Wickes (OW) – Cymdeithas y Cerddwyr Cymru
Stephen Pilliner (SGP) – Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyfyrdd CSC
Lucy Pugh (LP) - Swyddog Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Rob Williams (RW) – Trail Riders Fellowship (TRF)
Nigel Bailey (NB) – Cerdded Iach Sanclêr

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Jillie Gardiner (JG)
Jim Shadbolt (JS)
Jane Evans (JE)
Dai Stacey (DS)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Y Cynghorydd Hazel Evans
Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths
Daron Herbert (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Russell Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Neil Thomas – CSC
Sam Palmer – CSC
Simon Charles - CSC

Yn Absennol: Michael Jones

Glyn Evans
Gerald Brown

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	CAMAU GWEITHREDU
<p>Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad</p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y sylwedyddion/siaradwr.</p>	
<p>Eitem 2 - Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau - Dim</p> <p>CF - Dangosodd tirfeddiannwr a defnyddiwr hawliau tramwy anabl ddiddordeb mewn ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol, ni chafwyd unrhyw geisiadau ffurfiol hyd yma.</p>	
<p>Eitem 3 - Ymddiheuriadau</p> <p>Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p>Eitem 4 – Materion sy'n codi o'r cofnodion - na roddwyd ar yr agenda fel arall</p> <p><u>Cyfarfod Llwybr Dyffryn Tywi gyda Chymdeithas Ceffylau Prydain a CSC</u> CF: Aros am ymateb pellach gan JE (cynrychiolydd ardal Cymdeithas Ceffylau Prydain) i gadarnhau a oes angen cyfarfod.</p> <p><u>Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus</u> KB – A ellir rhoi gwybod i CSC bod angen hyrwyddo Gorchmynion i'r cyhoedd i raddau mwy i gynyddu dealltwriaeth.</p> <p><u>Cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth</u> MH - Nid yw cyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn cael eu cynnal bellach gan fod SGP yn mynychu cyfarfodydd chwarterol y Fforwm Mynediad Lleol. CF - I'w ddileu o'r agenda</p> <p><u>Mynediad i Geffylau</u> KB – Unrhyw ddiweddariad? A anfonwyd e-bost at John Morgan? Mae wedi camu i lawr fel Cadeirydd y Cadeiryddion. MH - Bydd yn cysylltu â Carys Drew i wybod pwy fydd Cadeirydd newydd y Cadeiryddion. Efallai y bydd yn cael ei gyhoeddi yng nghyfarfod y Cadeiryddion ar 19 Hydref.</p> <p><u>Y Prosiect Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOAT)/Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus (ORPA)</u> CF – Byddai'r prosiect o werth cyfyngedig i'r Adran Briffyrdd. Y wybodaeth a fyddai o fwyaf o werth fyddai ynglŷn â llwybrau coll/sydd heb eu mapio ac adroddiadau am bryderon diogelwch. MH – A oes modd i ni gael rhestr o'r llwybrau nad ydynt wedi cael eu harolygu gan yr Adran Priffyrdd? Efallai bod angen i'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd gyfarfod i drafod hyn ymhellach.</p> <p>MR – Gellid arolygu llwybrau trwy fideo o feiciau modur</p>	<p>JE</p> <p>CF</p> <p>MH</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>MH/CF</p>

<p>CF – Mae'n annhebygol y gellid uwchlwytho i hyn i'r system WDM a ddefnyddir gan yr Adran Priffyrdd ond bydd yn gwirio hyn</p> <p>MH - A oes modd i'r Fforwm Mynediad Lleol gael rhestr o'r Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus sydd wedi'u harolygu ar hyn o bryd</p> <p>SGP – Byddai'n well bod MH yn anfon rhestr o'r Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus i'r Adran Priffyrdd trwy CF i gychwyn y broses</p>	
<p>Eitem 5 – Cerddwyr Cymru, Cyflwyniad Llwybrau i Bobl (Oliver Wickes)</p> <p>OW - Cyflwynodd y prosiect Llwybrau i Bobl i'r Fforwm, a dosbarthwyd taflenni gwybodaeth.</p> <p>Treialwyd y Prosiect ym Mhowys gyda Chynghorau Cymuned.</p> <p>Mae'r Prosiect yn annog Cynghorau Cymuned i helpu i warchod a hyrwyddo'r llwybrau cyhoeddus yn eu hardaloedd</p> <p>Dyfarwyd cyllid o Loteri Côt Post y Bobl sy'n caniatáu i Gerddwyr ddarparu cyngor, hyfforddiant ac offer sylfaenol i gynorthwyo Cynghorau Cymuned – er mwyn gwella sgiliau gwirfoddolwyr a rhoi gwell cyfarpar iddynt.</p> <p>Y nod yw gadael grwpiau cynaliadwy a all barhau yn eu cymuned wedi i'r prosiect ddod i ben.</p> <p>GW – Mae gan rai Cynghorau Cymuned swyddog llwybrau troed, ai dyma beth mae'r prosiect hwn yn ceisio ei gyflawni?</p> <p>OW – Swyddog llwybrau troed penodol, neu is-bwyllgor yn ddelfrydol</p> <p>MM – Faint o staff sy'n gweithio ar y prosiect? Beth yw'r sefyllfa o ran yswiriant?</p> <p>OW – 3 aelod o staff, heb fod yn llawn amser. Mae yna yswiriant ar gyfer aelodau grwpiau Cerddwyr a chaiff opsiynau eraill eu harchwilio.</p> <p>SGP – Yn strategol mae angen i CSC weithio gyda'r sector gwirfoddol ac ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned, sydd yn thema drwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.</p> <p>MM – Mae hyfforddiant yn allweddol i sicrhau bod gwirfoddolwyr mor effeithlon â phosibl.</p> <p>OW – Gall arwyddbyst fod yn ffordd gyflym iawn o wella rhwydweithiau llwybrau.</p> <p>RL – Mwy o bobl yn cerdded = mwy o lwybrau'n cael eu cadw ar agor. Gall paneli gwybodaeth annog pobl i gerdded hefyd.</p> <p>SGP – Digwyddiad Cynghorau Tref a Chymuned ar ddod i lansio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, gwahodd OW i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect.</p> <p>MH - Cadw'r prosiect ar yr agenda, OW i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd drwy CF</p>	<p>CF/SR</p> <p>OW/CF</p>
<p>Eitem 6 – Datganiad y Gweinidog a Diwygio Mynediad</p>	

<p>CF – Yn dilyn Datganiad y Gweinidog ar Ddiwygio Mynediad mae grŵp llywio bellach yn cael ei ffurfio, ac ar hyn o bryd mae'r momentwm ynghylch diwygiadau yng Nghymru yn parhau.</p> <p>Gofynnwyd i Grŵp Rheoli Hawliau Tramwy Cymru (WROWMG) ddarparu cynrychiolydd ar y Grŵp Llywio ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus a diwygiadau sy'n gysylltiedig â Mynediad.</p> <p>Bydd grwpiau arbenigol yn cael eu penodi ar yr adeg briodol i gynghori'r grŵp llywio ynghylch gwelliannau technegol unigol.</p> <p>Rhaid cylchredeg/ail-gylchredeg yr holl wybodaeth am ddiwygio mynediad i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol.</p>	CF
<p>Eitem 7 – Hyrwyddo Llwybrau Cerdded y Sir</p> <p>MM – O fis Ebrill ymlaen bydd y tîm Darganfod Sir Gâr am hyrwyddo cerdded – beicio oedd yn cael ei hyrwyddo y llynedd.</p> <p>Mae Mynediad i Gefn Gwlad wedi ffurfio partneriaeth waith dda gyda'r adran Marchnata a'r Cyfryngau. Ar hyn o bryd mae 21 o Lwybrau'r Sir yn cael eu hyrwyddo (darparwyd taflen i'r aelodau).</p> <p>RL – A ellir darparu GPX ar gyfer Llwybrau'r Sir?</p> <p>MM – Caiff Plotaroute.com ei ddefnyddio ar gyfer hyn.</p> <p>KB – A oes modd hyrwyddo llwybrau marchogaeth?</p> <p>SGP – Ceir camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy sy'n ymwneud â hyrwyddo llwybrau.</p> <p>OW – Dylid gofyn i gymunedau ddod i ymwneud mwy â'r llwybrau a hyrwyddir yn eu hardaloedd</p> <p>CF – I'w gynnwys ar agenda Rhagfyr, mae'r adran Marchnata a'r Cyfryngau wedi dweud y byddant yn bresennol.</p>	
<p>Eitem 8 – Rhwydwaith Beicio Sustrans – Llwybrau i Bawb</p> <p>KB – wedi bod i gyfarfod yng Nghaerdydd – Grŵp Llywio Llwybrau i Bawb. Hoffai weld eitem barhaus ar yr agenda er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Yr amcan yw adolygu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol gyda golwg ar gael gwared ar y rhwystrau (llawer ohonynt nad ydynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd) a rhannau ar ochr y ffordd, cyd-drafod cytundebau mynediad o'r newydd ac agor mwy o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i bawb.</p> <p>Anelu hefyd at wella arwyddion drwy ychwanegu cyrchfannau a milltiroedd, gwefan newydd hefyd.</p> <p>Mae'r amcan i gael gwared ar rannau ar ochr y ffordd sydd wedi'u mapio yn gosod disgwyliadau ar Awdurdodau Priffyrdd i barhau â'u gwaith cynnal a chadw.</p>	SGP/CF

<p>MH – A ellir gwirio a yw rhwystrau Llwybr Dyffryn Tywi yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd?</p> <p>KB – Ar y llwybrau presennol sy'n agored i bawb, caiff defnydd gwrth-gymdeithasol/tresbasu ei blismona gan ddefnyddwyr</p>	
<p>Eitem 9 - Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>CF – Mae'r adroddiad yn cael ei gyfieithu, bydd yn mynd ar y wefan pan ddychwelir y cyfieithiad.</p>	CF/LP
<p>Eitem 10 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</p> <p>CF – Mae'r holl newidiadau y cytunwyd arnynt wedi'u rhoi ar waith ac maent bellach yn mynd trwy'r broses wleidyddol. Maent wedi bod trwy'r cam 1^{af}, ceir 3 cham pellach cyn iddynt gael eu cymeradwyo. Y nod yw eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr. Wedyn bydd y lansiad yn cael ei drefnu.</p>	
<p>Eitem 11 – Adroddiadau ar Faterion</p> <p>RL – Erbyn hyn mae gennym werth 3.5 blynedd o ddata, diolch i'r tîm, i Lucy yn benodol.</p> <p>Ceir tuedd o gynnydd o 12% mewn materion cynnal a chadw sydd heb eu datrys, gyda nifer fawr o faterion heb eu datrys ers mwy na 3 blynedd. Mae'r materion sy'n ymwneud ag arwyddion wedi cynyddu, sef mwy na 15% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Mae'r duedd ar gyfer materion cyfreithiol wedi gwastatáu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Mae materion hirdymor wedi cynyddu'n arw, sy'n dangos y pwysau sydd ar y tîm.</p> <p>MM – Mae gan bobl hyder wrth roi gwybod i ni am faterion gan eu bod yn cael adborth a'r wybodaeth ddiweddaraf wedi iddynt wneud hynny.</p> <p>GW – Mae'r profiad o adrodd am faterion mewn sir gyfagos yn dangos nad yw ein lefel ni o faterion sydd heb eu datrys yn unigryw. Roedd yn syndod cael gwybod am 2000 o faterion mewn ardal sy'n enwog am dwristiaeth.</p>	
<p>Eitem 12 - Gosod Arwyddbyst ar Gilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOAT)</p> <p>CF – Eglurwyd bod yna ddyletswydd ar yr Adran Briffyrdd (yn dilyn Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig) i osod arwyddbyst ar Gilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig.</p> <p>Gofynnir i'r Fforwm Mynediad Lleol flaenoriaethu'r rhestr o Gilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig y mae'r arolygwyr ardal yn ystyried eu bod ar agor/yn rhannol agored.</p> <p>Dyrannwyd cyllideb fechan felly gall y rhaglen arwyddbyst ddechrau trwy weithio ar rhwng 5 ac 8 llwybr y flwyddyn pan fydd y rhestr o flaenoriaethau wedi dod i law.</p>	CF

<p>Bydd y rhestr o lwybrau a ddarparwyd gan arolygwyr yn cael ei chylchredeg.</p> <p>Bydd y mater yn cael ei symud i gyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd fel eitem barhaus ar yr agenda.</p> <p>MH – a oes grant ar gael i helpu gyda hyn? O bosibl TRF</p> <p>CF – Mae'r Cerddwyr yn chwilio am brosiect a ariannir gan grant ar gyfer gosod arwyddbyst</p>	
<p>Eitem 13 - Llinellau melyn dwbl ym Mhen-bre</p> <p>CF - Daw'r Gorchymyn Traffig newydd i rym ddydd Gwener 25 Hydref 2019.</p> <p>Mae'r Gorchymyn Traffig yn darparu bae newydd 30 metr o hyd (a fydd yn gyfyngedig i ddsbarth y cerbyd) na fydd yn destun talu ac arddangos. Bydd y gwaith i gael gwared ar y llinellau melyn dwbl, i ddarparu bae newydd a gosod yr holl arwyddion angenrheidiol wedi'i gwblhau erbyn 25/10/19 neu cyn hynny o bosibl.</p> <p>Mae'r Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd ar gyfer y maes parcio yn parhau.</p> <p>Gall CF drosglwyddo unrhyw ymholiadau pellach i'r adran Rheoli Traffig.</p> <p>KB – A oes modd dosbarthu'r wybodaeth honno neu a all yr adran Rheoli Traffig ddarparu datganiad swyddogol y gellir ei gylchredeg</p> <p>CF – Bydd yn edrych i mewn i hyn</p> <p>KB – A fydd y Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd yn berthnasol i safleoedd eraill?</p> <p>LP – A all maes parcio fod ar gael ar gyfer gorlif neu a fydd cerbydau mawr yn dal i gael eu gwahardd o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn?</p> <p>CF i wneud yr ymholiadau angenrheidiol.</p>	<p style="text-align: center;">CF</p> <p style="text-align: center;">CF</p>
<p>Eitem 14 – Llwybr Dyffryn Tywi</p> <p>MH: Cynnig gwreiddiol i gefnogi Llwybr Dyffryn Tywi dim ond os na fydd y gyllideb yn dod oddi wrth hawliau tramwy cyhoeddus. Gallai'r Fforwm Mynediad Lleol gefnogi'r cynnig diwygiedig os yw cyllidebau'n cael eu gwneud yn glir bob blwyddyn?</p> <p>SGP – Cyhoeddir y gyllideb bob blwyddyn. Ni ellir sicrhau cyllidebau yn y dyfodol ond maent wedi cyflwyno cynigion i gynyddu'r gyllideb gyfalaf ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus.</p> <p>RL – Ddim yn barod i gefnogi hyn os bydd effaith negyddol ar gyllidebau hawliau tramwy cyhoeddus.</p> <p>MH – Mae angen trafodaeth bellach, dylid cadw hyn ar yr agenda. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf gan SP yn cael ei chylchredeg</p> <p>GW – A all marchogion ei ddefnyddio?</p>	<p style="text-align: center;">MH</p>

<p>CF – Nid oedd JE wedi clywed unrhyw beth pellach oddi wrth Gymdeithas Ceffylau Prydain eto</p>	
<p>Eitem 15 - Fferm Wynt Brechfa</p> <p>Nid oedd JG yn bresennol, anfonodd ddogfen gryno ynghylch cyfarfod rhanddeiliaid Cronfa Gymunedol Brechfa.</p> <p>Dylai cynrychiolwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus/Mynediad gynnig dyddiad addas ar gyfer y cyfarfod.</p> <p>MH – Dylai trefnwyr gynnig dyddiad i'r rhanddeiliaid allu gweithio tuag ato.</p> <p>Cylchredeg dogfen JG</p>	<p style="text-align: center;">CF</p>
<p>Eitem 16 - Rhwystrau a Gatiau ar Lwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus</p> <p>Cafodd KB a CSC gŵyn gan farchog ynglŷn â digwyddiad ar lwybr arall â mynediad cyhoeddus a achoswyd gan glwyd nad oedd modd mynd trwyddi a gwasgfa wartheg ar y llwybr.</p> <p>KB – Beth yw polisi'r Adran Priffyrdd ar symud rhwystrau o Lwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus/Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig?</p> <p>CF – Cymerir camau gorfodi drwy ddefnyddio pwerau'r Ddeddf Priffyrdd. Mae'r rhwystr wrth y gât ar y llwybr lle y digwyddodd y digwyddiad wedi'i ddatrys, ac edrychir eto ar fater y wasgfa gwartheg.</p> <p>KB – Ymddengys nad yw CSC yn barod i ddelio â phroblemau</p> <p>CF – O sgwrsio â'r Adran Priffyrdd nid oedd unrhyw amheuaeth y byddai pwerau gorfodi yn cael eu defnyddio.</p> <p>SGP – Cymerir camau i ddelio â materion fesul achos, mae hi bob amser yn well delio â materion trwy drafod, a gweithio gyda thirfeddianwyr. Os yw achos yn mynd ymlaen i'r llys, rhaid i CSC ddangos eu bod wedi bod yn rhesymol.</p> <p>Yna cyflwynodd MH bapur ynglŷn â gosod rhwystrau ar Lwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus.</p> <p>Cafodd y papur ei drafod.</p> <p>SGP – Cynigiodd siarad â Chyfoeth Naturiol Cymru i gael eu safbwyntiau a sicrhau bod gwaith cysylltu ac ymgynghori priodol yn digwydd yn y dyfodol fel bod y prosesau cywir yn cael eu dilyn.</p> <p>RL – Dylai'r Fforwm Mynediad Lleol dderbyn cynnig SGP</p> <p>MH – Ni fydd yn mynd â'r mater ymhellach am y tro.</p>	<p style="text-align: center;">SGP</p>
<p>Eitem 17 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol</p> <p>Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig/Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus fel eitem gyffredinol sy'n cwmpasu pob agwedd a drafodir</p> <p>Mynediad Sustrans i bawb</p> <p>Llwybrau Cerddwyr i Bobl</p> <p>Llwybrau'r Sir/Gwaith Hyrwyddo Cerdded yr Adran Marchnata a'r Cyfryngau</p>	

<p>Eitem 19 - Unrhyw Fater Arall</p> <p><u>Fforwm Mynediad Cenedlaethol</u> MH - A all y fforwm gael rhywfaint o adborth gan MJ a fu'n bresennol yn y Fforwm Mynediad Cenedlaethol</p> <p><u>Cynhadledd y Fforwm Mynediad Lleol</u> MH – Mae 4 aelod o'r fforwm yn gymwys i fynd. Nid yw MH a KB yn gallu mynd. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb roi gwybod i CF.</p> <p><u>Datganiadau Ardal CNC</u> MH – Digwyddiad Datganiadau Ardal (De-orllewin Cymru), 10 Hydref i randdeiliaid sydd am wneud sylwadau. CF - Efallai y byddai'n werth gwahodd CNC i'r Fforwm Mynediad Lleol i sicrhau bod pob aelod yn cael dweud ei ddweud.</p> <p><u>Ymgynghoriad Cynulliad Cymru</u> GW - Ail-lunio map o Gymru i ddarparu ardaloedd ar gyfer ffermydd gwynt a ffermydd solar. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 5 Tachwedd 2019. Daeth trwy gyfrwng YDCW, a ddylai'r Fforwm Mynediad Lleol fod yn anfon ymateb? KB – Gwnaethom ymateb i TAN 8 felly dylem ymateb i hyn. CF – Nid yw wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd MH – A allai unrhyw aelodau o'r fforwm, sy'n cael cyfle i edrych ar hyn cyn y dyddiad cau, anfon eu sylwadau at MH.</p>	<p>CF</p> <p>PAWB</p> <p>PAWB</p>
<p>Eitem 18 - Cyfarfodydd Nesaf</p> <p>5 Rhagfyr 2019 - Canolfan Tywi, Llandeilo. 5 Mawrth 2020 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin 11 Mehefin 2020 - Canolfan Tywi, Llandeilo 10 Medi 2019 - Canolfan Hamdden Caerfyrddin 3 Rhagfyr 2019 - Canolfan Tywi, Llandeilo</p>	